Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chydgysylltydd y Gronfa Byw'n Annibynnol:

Y Gwasanaethau Uniongyrchol
Maes Lliedi
Felin-foel
Llanelli
SA15 3TB

Swyddfa 01554 744207
Estyniad mewnol 2007
Ffôn Symudol 07887752944

ebost: ZAJenkins@sirgar.gov.uk

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar wefan y Cyngor

www.sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Lluniau lliw drwy garedigrwydd Jon Duckworth, y Gronfa Byw'n Annibynnol.

Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai

Y Gronfa Byw'n Annibynnol

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyflwyniad

Helo, Zoë Jenkins yw fy enw i.
Rwy'n gydgysylltydd y Gronfa Byw'n Annibynnol i bobl ag anableddau yn Sir Gaerfyrddin.

Sut y byddaf yn defnyddio arian gan y Gronfa Byw'n Annibynnol ?

I gyflogi cynorthwy-ydd er mwyn gallu mynd allan i gymdeithasu

I gyflogi cynorthwy-ydd er mwyn gallu mynd i'r sinema

I gyflogi cynorthwy-ydd i'ch helpu i siopa

Edrychwch ar wefan y Gronfa Byw'n Annibynnol i gael gwybodaeth a newyddion.

www.ilf.org.uk

Sut y byddaf yn defnyddio arian gan y Gronfa Byw'n Annibynnol ?

Ar ôl ichi dderbyn arian gan y Gronfa Byw'n Annibynnol, mae'n rhaid ei ddefnyddio yn y modd canlynol:

Mae'n rhaid i unrhyw arian gan y Gronfa Byw'n Annibynnol (1993) gael ei ddefnyddio i gyflogi un neu ragor o gynorthwywyr gofal, asiantaeth gofal o'ch dewis neu gyfuniad o'r ddau.

Ni ellir defnyddio'r arian yn y modd canlynol:

- i dalu am bethau megis addasu'r cartref, offer neu drafnidiaeth
- i dalu cyflog cynorthwy-ydd gofal sy'n byw yn yr un tŷ â chi.

Dyma rai enghreifftiau y gallech ddefnyddio GBA

I dalu am gymorth yn eich cartref

Y Gronfa Byw'n Annibynnol

Bydd y Gronfa Byw'n Annibynnol yn eich helpu os oes arnoch angen cymorth ychwanegol i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, rhywun i gysgu dros nos a seibiant, neu gymorth yn eich cartref eich hun.

Gallwch ofyn imi am gymorth gan y Gronfa Byw'n Annibynnol, a fydd yn eich helpu i brynu'r gwasanaethau hyn.

Rhif ffôn: **01554 744207** (Cyngor Sir Caerfyrddin - Cydgysylltydd y Gronfa Byw'n Annibynnol)

Beth yw'r Gronfa Byw'n Annibynnol ?

Mae'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn adnodd cenedlaethol sy'n darparu cymorth ariannol i alluogi pobl ag anableddau i ddewis byw yn y gymuned yn hytrach nag mewn cartref gofal preswyl.

Mae cymorth gan y Gronfa Byw'n Annibynnol yn cael ei roi i unigolion ar ffurf taliadau rheolaidd bob pedair wythnos, a defnyddir yr arian i brynu gofal personol yn y gymuned. Caiff y rheiny sy'n derbyn arian gan y Gronfa ddefnyddio asiantaethau gofal neu gyflogi cynorthwywyr personol, ond ni chânt gyflogi perthnasau sy'n byw yn yr un tŷ â nhw.

Sut y gallaf gael cymorth gan y Gronfa Byw'n Annibynnol ?

Yn gyffredinol, i fod yn gymwys i gael cymorth gan y Gronfa Byw'n Annibynnol (1993), mae'n rhaid:

- eich bod dros 16 oed a than 66 oed pan roddir y taliad cyntaf ichi gan y Gronfa
- eich bod yn derbyn elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y raddfa uchaf
- eich bod yn byw ar eich pen eich hun neu gyda phobl sydd heb fod yn gallu diwallu eich anghenion gofal
- bod perygl y bydd yn rhaid ichi symud i gartref gofal preswyl (neu eich bod mewn gofal preswyl ac yn dymuno ei adael a byw'n annibynnol)
- bod gennych lai na £18,500 o gynilion. Nid ystyrir cynilion o hyd at £11,500 a defnyddir tariff incwm ar gyfer cynilion rhwng £11,500 a £18,500
- eich bod yn derbyn gwerth o leiaf £200 net o wasanaethau a/ neu arian gan eich awdurdod lleol bob wythnos a'ch bod yn gallu byw'n annibynnol yn y gymuned am o leiaf chwe mis.